Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

# Atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd

## Cofnod o gyfarfod cyntaf y grŵp cynghori

Dydd Llun 12 Mehefin 2023

## Cefndir

**1.** Gwnaeth saith aelod o'r grŵp cynghori gyfarfod â'r Pwyllgor am y tro cyntaf yn ystod sesiwn breifat yn y Senedd ddydd Llun, 15 Mai 2023. Roedd chwe aelod o'r grŵp cynghori yn bresennol wyneb yn wyneb gydag un aelod yn cyfrannu ar-lein, trwy Zoom.

**2.** Pwrpas y drafodaeth gychwynnol hon oedd ystyried barn y grŵp cynghori ar y prif themâu a ddaeth i'r amlwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, a gynhaliwyd rhwng dydd Mercher, 8 Mawrth 2023 a dydd Gwener, 28 Ebrill 2023.

**3.** Daeth y themâu a ganlyn i'r amlwg yn sgil y drafodaeth.

## Themâu

### Thema 1: Rôl ysgolion

**4.** Mae gan ysgolion rôl allweddol i'w chwarae wrth ddysgu bechgyn a merched beth yw perthnasoedd iach, gan ddechrau gyda phlant oed ysgol gynradd (h.y., o flwyddyn 6). Yn ogystal ag ymgorffori Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y Cwricwlwm i Gymru, mae angen i bwysigrwydd perthnasoedd iach dreiddio i'r diwylliant mewn ysgolion.

**5.** Bydd cael eu magu mewn cartref lle mae cam-drin yn gyffredin yn aml yn golygu nad yw merched mewn sefyllfa i adnabod ymddygiad camdriniol fel oedolion, oherwydd efallai na fyddant erioed wedi profi na gweld perthnasoedd

iach. Mae'n hanfodol grymuso merched fel bod ganddynt yr offer i adnabod ymddygiad camdriniol cyn iddo waethygu.

**6.** Yn aml, mae ffocws anghymesur ar sut y dylai merched ymddwyn neu beidio ag ymddwyn, yn hytrach nag addysgu ymddygiadau parchus i fechgyn (hynny yw, deall pa ymddygiadau sy'n gallu gwneud i ferched deimlo'n anghyfforddus ac yn ofnus). Mae angen addysgu merched a bechgyn i godi llais yn erbyn ymddygiad amharchus, a gosod ffiniau.

**7.** Yn aml gall ysgolion anwybyddu ymddygiad gwael, sy'n rhoi hyder i'r sawl sy'n gwneud hynny barhau â'i ymddygiad. Mae'n bwysig cefnogi'r proffesiwn addysgu i adnabod yr arwyddion a'r symptomau y gallai plant fod yn profi trais ar sail rhywedd, oherwydd gallai plant ddangos nodweddion trawma mewn gwahanol ffyrdd. Mae angen gwella sgiliau a grymuso'r proffesiwn i roi set o sgiliau cyfathrebu iddynt er mwyn gweithredu.

**8.** Ceir barn nad yw'r ddyletswydd 'Gofyn a Gweithredu' presennol yn grymuso gweithwyr proffesiynol i weithredu. Mae ansicrwydd ynghylch sut i ymdrin â datgeliad a'r cyfrifoldeb y bydd gan unigolion am reoli'r risg. Dylid hefyd ystyried diogelu'r rhai y gwneir y datgeliad iddynt, oherwydd natur y datgeliad a allai fod yn drawmatig neu beri gofid.

**9.** Mae angen i ysgolion feithrin perthynas gref â'r teuluoedd perthnasol.

**10.** Mae rôl i arbenigwyr/goroeswyr wrth gyd-gynhyrchu hyfforddiant, a ddylai gynnwys herio'r proffesiwn addysgu am eu rhagfarn ddiarwybod eu hunain.

### Thema 2: Trais a thrawma rhwng cenedlaethau

**11.** Mynegwyd pryderon difrifol am yr effaith y gall bod yn dyst i gam-drin domestig a/neu drais rhywiol, profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a thrawma cynnar ei chael ar blant a phobl ifanc.

**12.** Roedd pryderon ynghylch diffyg gwasanaethau cymorth arbenigol i blant sy'n dyst i gam-drin domestig a/neu thrais rhywiol. Mae plant yn cael trafferthion wrth gael mynediad at wasanaethau prif ffrwd, fel Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS). Dywedodd un cyfranogwr fod y Gwasanaethau hyn yn gwbl amharod i ddeall effaith cam-drin domestig a/neu drais rhywiol ar blant.

**13.** Roedd yr angen i ymgorffori ymarfer sy'n seiliedig ar drawma mewn gwasanaethau cyhoeddus yn thema gref. Roedd pryderon bod yn rhaid i

fenywod a phlant ailadrodd eu stori dro ar ôl tro i lawer o wahanol weithwyr proffesiynol er mwyn cael mynediad at wasanaethau cymorth, a all beri iddynt ail-fyw'r trawma. Mae angen deall hefyd bod meithrin ymddiriedaeth gyda'r unigolyn i'w alluogi i deimlo'n gyfforddus i rannu ei brofiad cyn gwneud atgyfeiriad, yn hanfodol.

**14.** Rhannwyd pryderon bod ymyrraeth yn fwy tebygol lle mae tystiolaeth o gam-drin corfforol, a all yn aml olygu bod arwyddion o gam-drin emosiynol yn cael eu hanwybyddu.

**Thema 3: Diogelwch ar-lein a chyfryngau cymdeithasol**

**15.** Cafodd y cyfryngau cymdeithasol eu disgrifio fel bwystfil heb ei ddofi, gydag aelodau'r grŵp yn esbonio bod angen addysgu plant a phobl ifanc beth yw cam-drin, fel y gall pobl ddewis peidio â chymryd rhan pan fyddant yn dod i gysylltiad ag ef.

**16.** Mae angen cefnogi rhieni i'w helpu i ddeall yn well y cynnwys niweidiol y gall eu plant ddod i gysylltiad ag ef ar-lein a rhoi sgiliau iddynt gefnogi eu plant i gadw'n ddiogel ar-lein.

**17.** Mae angen codi ymwybyddiaeth i helpu rhieni i adnabod yr arwyddion a'r symptomau y gallai eu plant fod mewn perygl o niwed/profi camdriniaeth neu aflonyddu ar-lein. Mae rôl i ysgolion o ran hyrwyddo defnydd diogel o'r rhyngrwyd.

**18.** Rhannwyd pryderon am ddiffyg rheolaeth ynghylch yr hyn sy'n ymddangos yn ffrydiau cyfryngau cymdeithasol pobl ifanc, sy'n eu gwneud yn agored i niwed. Mae yna rôl i reoleiddwyr a'r diwydiant cyfryngau cymdeithasol amddiffyn pobl ifanc a sensro cynnwys niweidiol.

**19.** Mae deialog onest am y peryglon sy'n gysylltiedig â phornograffi yn bwysig. Mae'n bwnc sy'n aml yn cael ei ystyried yn dabŵ ond mae'n dod yn fwyfwy hygyrch. Mae angen i blant a phobl ifanc ddeall nad yw pornograffi yn adlewyrchu perthynas/profiad rhywiol normal.

**Thema 4: Ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth**

**20.** Er bod rhai aelodau'r grŵp yn gadarnhaol am effeithiolrwydd ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru, teimlwyd bod eu heffaith yn gyfyngedig oherwydd amser cymharol fyr yr ymgyrchoedd. Galwyd

am ymgyrchoedd sy'n rhedeg am gyfnod hirach i gynnal momentwm ac ymgorffori'r negeseuon allweddol yn ymwybyddiaeth y cyhoedd.

**21.** Mae'n hanfodol nad yw ymgyrchoedd yn cael eu gwanhau i ymddangos yn fwy dymunol i'r cyhoedd. Mae cam-drin domestig a thrais rhywiol yn drawmatig, a dylid portreadu'r realiti i fenywod sy'n byw yn y sefyllfaoedd hynny'n gywir.

**22.** Yn yr un modd, gwelwyd bod ymyriadau gan wylwyr yn effeithiol, ond mae eu heffaith yn gyfyngedig oherwydd eu bod yn tueddu i fod yn ymyriadau tymor byr, gydag ymgyrchoedd yn rhedeg am sawl wythnos yn unig.

**23.** Mae angen defnyddio lens groestoriadol mewn ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion pob menyw a merch (gan gynnwys menywod anabl, menywod o gefndiroedd lleiafrif ethnig a menywod heb y gallu i gael gafael ar arian cyhoeddus).

**24.** Y peth pwysicaf yw'r cyswllt cyntaf a gaiff menyw wrth ddatgelu ei phrofiad o gam-drin domestig neu drais rhywiol. Mae'n hanfodol bod datgeliad cyntaf yn cael ei drin yn briodol a chydag empathi (mae hyn yn aml i feddyg teulu, ymwelydd iechyd, bydwraig, neu i swyddog heddlu).

**25.** Roedd credu menyw sy'n datgelu ei phrofiad o gam-drin domestig a/neu drais rhywiol yn cael ei ystyried yn rhywbeth allweddol. Esboniodd rhai fod amheuaeth yn aml yn cael ei bwrw gan y rhai y gwneir y datgeliad iddynt, yn absenoldeb unrhyw arwyddion gweladwy o gam-drin corfforol a phan fydd y fenyw yn ymddangos yn drwsiadus ac yn gallu mynegi ei hun. Mae hyn, yn ei dro, yn effeithio ar yr ymddiriedaeth sydd gan fenywod mewn gwasanaethau cymorth.

**26.** Yn yr un modd, pan fydd menyw yn rhoi gwybod i rywun am gam-drin domestig a/neu drais rhywiol, gall fod mewn cyflwr mwy emosiynol. Ystyr hyn yw y gallai rhai manylion gael eu hepgor, a all effeithio ar a fydd stori'r fenyw yn cael ei gredu ("wnaeth hi ddim dweud hynny ar y noson").

**27.** Mae hefyd yn bwysig bod gwasanaethau cymorth eisoes ar waith i ganiatáu i weithwyr proffesiynol atgyfeirio (h.y., mae'n aneffeithiol/peryglus annog menywod i adrodd eu hanes heb fod cymorth digonol ar waith).

### Thema 5: Rhagfarn ar sail rhywedd a beio dioddefwyr

**28.** Roedd yna farn y gall dynion fanteisio ar y 'system', gan argyhoeddi gweithwyr proffesiynol nad ydynt yn risg a darlunio eu partner fel rhywun

'ansefydlog'. I'r gwrthwyneb, ystyrir bod menywod yn 'rhy addysgedig' i gael eu cam-drin (yn aml nid yw gweithwyr proffesiynol yn credu eu bod yn ddioddefwyr). Roedd rhai'n teimlo os defnyddir rhai termau, a ddisgrifir gan un cyfrannwr fel "buzz words", eu bod yn llai tebygol o gael eu credu.

**29.** Mae menywod yn teimlo eu bod yn aml yn cael eu hystyried yn 'niwrotig' neu'n 'niwsans' i wasanaethau. Maent yn teimlo nad yw eu barn yn cael ei glywed, a bod eu pryderon yn aml yn cael eu diystyru neu eu hanwybyddu. Mae'n anodd i oroeswyr ymddiried yn y gwasanaethau sydd i fod i'w cefnogi oherwydd eu bod wedi cael eu siomi gymaint o weithiau (neu mae goroeswyr yn ystyried eu bod yn cymryd ochr y tramgwyddwr).

**30.** Ceir diwylliant systemig o feio dioddefwyr lle mae goroeswyr yn teimlo mai nhw yw'r rhai sydd angen 'profi' bod eu plant yn ddiogel i fod gyda nhw. Yn sgil ofn y bydd plant goroeswyr yn cael eu cymryd i'r system ofal os bydd goroeswyr yn 'codi llais', mae hyn yn tawelu llawer o ddioddefwyr ac yn eu hatal rhag gofyn am gefnogaeth.

**31.** Mae'r cyfrifoldeb ar oroeswyr i eiriol drostynt eu hunain a dysgu sut i lywio system gymhleth (h.y., yr heddlu, llys teulu, gwasanaethau cymdeithasol ac ati) i gadw eu hunain a'u plant yn ddiogel. Mae goroeswyr yn aml yn gwneud hynny o dan straen a thrawma eithafol, ac yn erbyn cefndir o sefyllfa ansicr o ran tai ac arian.

**32.** Mae rhai menywod yn fwy addysgedig a galluog nag eraill wrth geisio llywio'r "anhrefn". Fodd bynnag, codwyd pryderon am y menywod hynny nad oes ganddynt yr hyder na'r gallu i wneud hyn. Beth sy'n digwydd iddyn nhw?

**33.** Awgrymwyd y gallai rhai menywod gael eu hatal rhag gofyn am gymorth iechyd meddwl oherwydd eu bod yn ofni y bydd eu cofnodion meddygol yn cael eu rhannu'n amhriodol.

### Thema 6: Dal cyflawnwyr i gyfrif

*Mae llawer o'r materion a drafodir yma yn rhai a gedwir yn ôl gan Lywodraeth y DU.*

**34.** Nid oes gan oroeswyr hyder mewn rhaglenni cyflawnwyr a mynegwyd pryderon am eu heffeithiolrwydd a'u hygrededd. Disgrifiodd un aelod o'r grŵp cynghori rai rhaglenni cyflawnwr fel rhai tebyg i grwpiau 'incel'.

**35.** Codwyd pryderon difrifol am y llys teulu a pha mor drawmatig y gall y profiad fod i oroeswyr a phlant.

**36.** Mynegwyd pryderon ynghylch ailadrodd erledigaeth (h.y. mae dynion yn symud ymlaen i'r berthynas nesaf ac mae'r un patrwm o drais yn cael ei ailadrodd). Un pryder penodol yw nad yw sefydliadau a gwasanaethau yn rhannu gwybodaeth y tu hwnt i'w ffiniau daearyddol (h.y. awdurdodau lleol, yr heddlu ac ati).

**37.** Mae gormod o ddynion yn cael eu 'caniatáu' i osgoi cael eu cosbi - nid yw'r cosbau yn ddigon llym, prin yw'r achosion sy'n cyrraedd y llys, mae pledio'n euog i drosedd lai yn lleihau hyd y ddedfryd ac ati.

**38.** Mae angen gwella'r ffordd y mae'r heddlu'n trin achosion o drais ar sail rhywedd, gydag un cyfrannwr yn dweud bod ymateb yr heddlu i'w sefyllfa yn sioc mawr iddi. Nid yw'r heddlu bob amser yn cymryd adroddiadau o drais yn erbyn menywod o ddifrif (yn enwedig os nad oes tystiolaeth o drais corfforol). Mae diwylliant o feio dioddefwyr, ac arferion gwael o ran rhannu gwybodaeth a chofnodi data.

### Thema 7: Cam-drin ar ôl gwahanu

**39.** Mae diffyg ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a chydnabyddiaeth o'r peryglon sy'n gysylltiedig â cham-drin ar ôl gwahanu ar draws y sector cyhoeddus (h.y. camsyniad nad yw goroeswr mewn perygl mwyach, os nad yw bellach yn byw gyda'r tramgwyddwr. Fodd bynnag, dywedodd rhai bod cam-drin ar ôl gwahanu yn llawer gwaeth).

**40.** Mae'r dirwedd y mae'n rhaid i fenyw ei llywio mewn camdriniaeth ar ôl gwahanu yn gymhleth. Daw negeseuon sy'n gwrthdaro â'i gilydd gan wahanol wasanaethau (h.y. bydd y gwasanaethau cymdeithasol yn cynghori i gadw draw oddi wrth y troseddwr, bydd y llys teulu yn annog cyswllt, mae'r heddlu'n ceisio erlyn), sy'n gwaethygu sefyllfa sydd eisoes yn llawn straen.

**41.** Nid oes gwasanaethau cymorth ar waith ar gyfer goroeswyr sy'n profi cam-drin ar ôl gwahanu.

### Thema 8: Materion allweddol eraill

*Oherwydd cyfyngiadau amser, ni roddwyd sylw manwl iawn i rai cwestiynau. Rydym yn aros am gyfraniadau pellach gan y grŵp cynghori ar y meysydd canlynol.*

**42.** Mae angen ymyriadau yn y gweithle ar gyfer:

- cefnogi goroeswyr;
- codi llais am aflonyddu rhywiol.

**43.** Roedd pryderon ynghylch diffyg gwasanaethau lloches ar gyfer menywod anabl sy'n dioddef cam-drin domestig neu drais rhywiol. Rhannwyd pryderon hefyd bod anghenion menywod anabl, a'r risgiau iddynt, yn cael eu hanwybyddu, yn enwedig pan mai eu gofalwyr yw'r rhai sy'n eu cam-drin.

**44.** Materion yn ymwneud â defnyddio tai dros dro pan orfodir menywod (a'u plant) i ffoi o gartref y teulu, yn enwedig mewn achosion lle mae menywod yn dioddef camdriniaeth ariannol.

**45.** Barn nad yw gwasanaethau cymorth yn gweithio ar y cyd oherwydd eu bod yn cystadlu am yr un gronfa o gyllid a/neu fod ganddynt adnoddau cyfyngedig. Mae angen dull system gyfan. Roedd rhai yn rhannu'r farn bod rhai sefydliadau'n cadw eu goroeswyr i'w hunain felly nid yw gwybodaeth yn cael ei rhannu, a bod gwasanaethau'n gweithio mewn seilos.

**46.** Mae angen i waith MARAC (Cynhadledd Asesu Risg Atgyfeirio Aml-asiantaeth) fod yn fwy tryloyw.

**47.** Mae gweithwyr ieuenctid yn chwarae rhan allweddol ond mae adnoddau a chapasiti yn effeithio ar eu heffeithiolrwydd.

**48.** Mae angen gweithio gyda'r sector busnes a'r economi nos i leihau'r risgiau i fenywod a merched.